

TEITHIAU'R ALBAN 2020

Crianlarich: Sul 23 Chwefror – Sul 1 Mawrth

Mae 8 llofft twin (ystafelloedd dwbl ar gael os dymunwch) wedi eu llogi'n amodol yn y **Crianlarich Hotel** am £220 y pen am wely a brecwast. Mae swper ar gael am £12 y noson ar ben hynny. **Mae'r rhain yn brisiau arbennig i grŵp; os am fanteisio arnynt, byddai'n ofynnol archebu am saith noson.** Gall unrhyw un sydd am aros am lai na saith noson wneud eu trefniadau eu hunain efo'r gwesty. Os na fyddech eisiau archebu cinio nos am wythnos gyfan, byddai'n bosib archebu ar y diwrnod os am 'fwyta i mewn'.

Mae Crianlarich yn ganolfan hwylus, yn agos at Ben Hope a Ben Lui a nifer fawr o fynyddoedd gwych eraill – 30 *Munro* o fewn ugain munud i'r pentref!

Gall yr amgylchiadau gaeaf yn yr Alban fod yn heriol felly rhaid wrth ddillad ac offer pwrpasol. Er bod angen profiad blaenorol o fynydda cyffredinol, a pharodrwydd i wynebu amodau anodd, mae taith y clwb yn cynnig cyfle i ymestyn profiad a datblygu sgiliau o ran mynydda gaeaf.

Rhaid talu wrth archebu lle. Ni fydd yn bosib derbyn arian yn ôl os oes rhaid canslo am unrhyw reswm. Cysylltwch cyn gynted â phosib ac erbyn 1 Rhagfyr fan bellaf.

.....

Crianlarich: 23 Chwefror – 1 Mawrth

Enw:

Cyfeiriad:

.....

..... Cod Post

Ebost: Ffôn:

Naill ai anfonwch y ffurflen uchod a siec am £220 (heb swper) / £304 (efo swper) yn daladwy i *Clwb Mynydda Cymru* i'w ddanfôn cyn gynted â phosib ond erbyn 1 Rhagfyr fan bellaf at:

Gareth Roberts, Dolhiryd, Glyn Ceiriog, Llangollen LL20 7HB

Neu ebostiwch Gareth – cefnoed@btconnect.com – efo'r wybodaeth uchod a thalu trwy drosglwyddiad banc.

Banc: **HSBC**

Enw'r cyfrif: **Clwb Mynydda Cymru**

Côd didoli: **40-09-03**

Rhif y cyfrif: **51092138**

Cyfeirnod i'w ddyfynnu: **CRANLARICH + enw'r unigolyn**

Bydd angen i'r sawl sy'n talu trwy'r dull hwn anfon e-bost at y Trysorydd (Dilys Phillips) yr un pryd ag at Gareth – craflwyn@globalnet.co.uk